

RECORDERS' NEWSLETTER



Cylchlythyr y Cofnodwyr 30 (Gwanwyn 2013)

Bydd Grŵp Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Rhondda Cynon Taf yn dod at ei gilydd yn gyfnodol i lunio adolygiad o ryw agwedd benodol ar fioamrywiaeth. Penderfynasom y llynedd fod angen uwchraddio ein dealltwriaeth o'n ffawna mamalaidd. Dyma ni felly yn bwrw ati i lunio'r ddrafft ganlynol. Rhyw ofni ydym ni na fydd byth yn gweld golau dydd, nac yn derbyn sylwadau gan neb. Dyna pam mae'r ddrafft yma, o flaen eich llygaid. Gobeithio y bydd o ddi-ddordeb i chi. Edrychwn ymlaen at eich sylwadau chi.

MAMALIAID

Mae amryw gynefinoedd yn gyfystyr ag amrywiaeth o gynefinoedd mamalaidd. Gan fod Rhondda Cynon Taf yn meddu ar frithwaith bendigedig o gynefinoedd lled-naturiol, mae yma gyfoeth o famaliaid hefyd. Mae'r Cynllun hwn yn ystyried pob rhywogaeth o famaliaid Prydain, boed y rheiny'n rhywogaethau brodorol, neu'n rhywogaethau o famaliaid anffodorol ac estron hir-sefydledig. Nid oes adroddiad awdurdodol ar famaliaid Rhondda Cynon Taf. (Yr un yw hanes y rhan fwyaf o grwpiau o rywogaethau.) Dyna pam mae'n Cynllun Gweithredu ni am gasglu mewn un lle ein dealltwriaeth gyfredol o'n ffawna mamalaidd.

Mae nifer o rywogaethau eisoes wedi teilyngu cynlluniau gweithredu unigol yn *Gweithredu Dros Natur: Cynllun Gweithredu Lleol ar gyfer Bioamrywiaeth yn Rhondda Cynon Taf*. Dyma hwy: draenog, dyfrgi, mochyn daear, pathew, gwiwer goch, ysgyfarnog, llygoden bengron y dŵr, a phob ystlum. Gwerthusiad o'r Cynlluniau Gweithredu hynny yw'r Cynllun Gweithredu hwn. Mae'n cynnwys ystyriaeth o nifer fawr o rywogaethau sydd, gyda'i gilydd, yn ymfurfio yn ffawna mamalaidd gwyllt Rhondda Cynon Taf. Sail y Cynllun Gweithredu yw'r wybodaeth bresennol am statws ac am faterion, pryderon, a phroblemau cadwraeth rhywogaethau. Mae'n anghyflawn, wrth reswm, ac mae'r anghyfiawnder hyn yn her i bob un sydd am lenwi'r llu o wahanol fylchau yn ei dealltwriaeth

Daw llawer iawn o'r cofnodion, fel arfer, o'r asesiadau arolygu sy'n ofynnol ar gyfer ceisiadau cynllunio. Yr Awdurdod Lleol (neu, lle bo'n briodol ac addas, Cyngor Cefn Gwlad Cymru (Cyfoeth Naturiol Cymru bellach) sy'n eu gwneud yn ofynnol ac yn eu hadolygu. Mae'r rhain yn darparu a chyflenwi rhan o'r gwaelodlin neu linell sylfaen ar gyfer ein dealltwriaeth o wasgariad ac o ddigonedd cymharol llawer o rywogaethau. Mae Rhondda Cynon Taf yn ffodus iawn i gael grŵp mor ymroddedig o gofnodwyr bywyd gwyllt. Mae'u cyfraniad hwy i Arolwg Cylchlythyr y Cofnodwyr yn fodd i ni lenwi rhagor o

fylchau yn ein gwybodaeth. Y ffynhonnell barchus *A review of British mammals*: (Harris, Morris, Wray a Yalden, 1995), oedd ein man cychwyn, er ei bod yn dechrau heneiddio. Defnyddiasom Gynlluniau Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer rhai rhywogaethau lle'r oedd rhai ar gael.

Llygod, Llygod Pengrwn, a Llygod Ffrengig

Naw rhywogaeth o lygod, llygod pengrwn, a llygod Ffrengig sydd yn Rhondda Cynon Taf. O'r llygod, llygoden y coed sydd i'w gweld yn fwyaf niferus. Mae hyn yn arbennig o wir yn y brithwaith o goetiroedd iseldir, gwelltiroedd parhaol, gerddi, a gwrychoedd, a pherthi sy'n cuddio cymaint o Rhondda Cynon Taf. Bydd llawer o bobl yn gweld llygod y coed yn eu gerddi, neu yn mynd i mewn i dai neu i dai allan yn yr hydref. Rhywogaeth gyfarwydd yw hon, i'w gweld yn aml. Ar y llaw arall, nid oes gennym gofnodion parhaol o'r llygoden fronfelen. Er hyn y mae gan y rhywogaeth goedwigol hon gysylltiad cryf â safleoedd coetir lled-naturiol yr iseldir. Mae'n ddigon posibl, gan hynny, y cawn weld yn y pen draw fod ardaloedd coediog Rhondda Cynon Taf yn cynnal poblogaethau o lygod bronfelyn. Yr un mor niwlog yw'r darlun o ran y llygoden fach hefyd. Unwaith eto, y dybiaeth yw bod llygod bach i'w cael yn Rhondda Cynon Taf, gan nad ydynt wedi'u cyfyngu i drefi. Gwaetha'r modd, nid oes cofnodion diweddar. Ar nodyn mwy cadarnhaol, rydym wedi cael hyd i lygod yr yd yn Rhondda Cynon Taf yn ddiweddar. Portread arferol llygod yr yd ar fatiau bord yw pâr bach annwyl ohonynt yn byw mewn cae o yd melyn. Mewn gwirionedd, mae'n well ganddynt safleoedd gwlyptir. Yn ein hardal ni, fe'u cafwyd mewn porfeydd rhos heb eu rheoli. A dweud y gwir, mae *A review of British mammals* yn dyfynnu barn Perrow a Jowitt fod llygod yr yd yn aml gyda'r mamaliaid bychain mwyaf niferus mewn gwlyptiroedd. Ymddengys fod twmpathau o laswellt y gweunydd yn bwysig iddynt fel defnydd ar gyfer gweu nythod bach siâp bêl mor grefftus. Hen nythod siâp pêl yw'r dystiolaeth fwyaf effeithiol am bresenoldeb llygod yr yd. Yn ystod y gaeaf, byddant yn llawer haws eu gweld yn amlwg. Hyd yma, cafwyd hyd i hen nythod llygod yr yd mewn nifer o wahanol gaeau yn Saffle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Rhos Tonyrefail. Daethant i'r golwg wrth chwilio am weoedd larfau britheg y gors. Mae'n fwy na thebyg y bydd llygod yr yd yn defnyddio cynefinoedd tebyg mewn mannau eraill. Glaswelltiroedd gwlyb yn ardaloedd Llantrisant, Llanilltud Faerdref, Llanharan, a Chwm Cynon fyddai'r lleoedd mwyaf addawol i chwilio ynddynt.

O fudd a mantais arbennig i'r pathew yw bod cyfraith y Deyrnas Unedig a Chyfraith Ewrop yn rhoi'r lefelau uchaf o warchodaeth ac amddiffyniad cyfreithiol iddi. Dosbarthiad anghyson iawn sydd gan y pathew yng Nghymru. Rydym ni yn Rhondda Cynon Taf yn ffodus fod ein tiriogaeth ni yn cynnal poblogaeth bwysig o'r creadur ar gyrion deheuol yr hen faes glo. Pedwar safle pathewod oedd yn Rhondda Cynon Taf hyd y gwyddem ni, a ninnau'n ysgrifennu'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth gwreiddiol iddynt. Roeddent i gyd yn rhan ddeheuol Rhondda Cynon Taf, gyda dwy yn ardal Llanharan. I'r gorllewin o Lanharan oedd y naill, a'r llall i'r dwyrain o Lantrisant. Yr un fwyaf adnabyddus yr adeg honno - a heddiw- yw Coed Brynna a Chors Llanharan. Dyna le cafwyd y gytref pathewod cyntaf ym 1983. Bellach, cafordd ei mabwysiadau'n warchodfa natur gan yr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt. Roedd dwy o'r safleoedd eraill mewn coedydd oedd yn eiddo preifat. Roedd y bedwaredd mewn gweddillion coedwig hynafol ar lannau nentydd yng Nghoed Trecastell, sy'n eiddo i'r Comisiwn Coedwigaeth. Bellach, mae gennym ddarlun llawer mwy manwl o ddosbarthiad pathewod, diolch i'r cynnydd yn nifer y cofnodion. Gwyddom erbyn hyn fod pathewod wedi ymgartrefu yn helaeth yn ardal Llanharan a Llanhari. Byddant yn gwneud defnydd o rwydwaith o goedydd bychain (ac

eithaf gwlyb ar adegau), a'r gwrychoedd a pherthi sy'n eu cysylltu. Mae cofnodion pellach, ond llai niferus, o gofnodion yn dangos y pathewod yn ymledu tua'r dwyrain. Maent i'w cael yn ardal Pont-y-clun a Llantrisant, Llanilltud Faerdref, Pentre'r Eglwys, a Thŷ Rhiw tua'r dwyrain, sy'n ymgysylltu â'r cytrefi draw yng Nghaerffili. Rhyw 12 o safleoedd sydd i'w cael, hyd y gwyddom ni. Ymddengys fod nifer o'r rhain yn asio gyda'i gilydd ac yn ymgysylltu hefyd, gobeithio. Rhaid bod safleoedd o leoliadau newydd i'w cael yma ar hyd ymylon deheuol y maes glo. Mae cynefinoedd gwych i bathewod i'w cael mewn mannau eraill hefyd. Chwiliwn i'r gogledd o'r Fro rhwng Tonyrefail a Phontypridd, yng nghoetiroedd Dyffryn Taf o Ffynnon Taf i Abercynon, ac yng ngodre coediog Cwm Cynon. Yn sicr, fe ddylwn gynnal rhagor o arolygon yn yr ardaloedd hyn.

Sut mae mynd ati i gynnal arolwg pathewod? Ymweld ag unrhyw safle lle mae llwyni cyll yn dwyn eu ffrwyth yw'r ffordd orau, unrhyw bryd rhwng diwedd Awst hyd at fis Hydref. Chwiliwch am gnau cyll, ac olion dull nodweddiadol y pathew o'u hagog. Edrychwch am dwll bach cymen, a'i ystlysau fel petaent wedi'u crafu allan â sgŵp hufen ia mân, mân. Malurio'r cnau fydd gwiwerod llwyd. Er bod llygod pengrwn a rhywogaethau eraill o lygod yn torri tyllau eithaf cymen, ni fyddant byth mor berffaith gymen â rhai'r pathew. Ac yn sicr ni fyddant fel petaent wedi'u crafu allan â sgŵp hufen ia mân, mân. Lluniodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr daflen ardderchog am y pathew yn 2007. Mae i'w gweld ar www.welshwildlife.org/attachments/southwalesdormousesurvey. Mae'r daflen yn cynnwys lluniau ardderchog o gnau cyll a gafodd eu cnoi gan bathewod. Cewch syniad o'r rhain am beth i chwilio. Os cewch hyd i gnau wedi'u cnoi fel hyn, cadwch hwy. Dangoswch hwy i ni, i Gyngor Cefn Gwlad Cymru, neu i'r Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt. Cewch wybod fel hyn a ydych chi wedi cael hyd i safle pathewod newydd.

Y gred tan yn ddiweddar oedd bod pathewod wedi'u cyfyngu i safleoedd coetir hynafol mawr. Gallai amrywiaeth y coed a'r rhywogaethau isdyfiant ddarparu'r ffynonellau bwyd a'r strwythur coetir sy'n ofynnol i anghenion manwl y rhywogaeth hon. Fel y gallwch ddychmygu, fe fyddai cael ei gyfyngu'n llwyr i gynefin mor brin yn gryn rwystr i gadwraeth y pathew. Yn ffodus iawn, mae pathewod wedi dechrau ymddangos dros y ddegawd ddiwethaf mewn mathau eraill o gynefin. Fel cynefin cysylltiol pwysig rydym ni wastad wedi gweld gwrychoedd a pherthi. Mae tystiolaeth fwy diweddar, ar y llaw arall, yn awgrymau y gallai cynefinoedd o'r fath fod yn cynnal poblogaethau pathewod. Mae rhannau helaeth o isglogwyn mierog Lyme Regis yn Swydd Dorset yn cynnal cytrefi pathewod. Cynefin arall i'r pathew yw planhigfeydd conifer wedi'u planau ar safleoedd coetir hynafol. Gwelwyd pathewod yn defnyddio bwydwyr adar mewn gerddi - o debyg, lle mae'r gerddi yn ffinio â choedydd neu â hen wrychoedd a pherthi. Dyna pam fod lle i ni obeithio y bydd cadwraeth y pathew yn llwyddo. Efallai fod y rhywogaeth ychydig yn wytnach nag a dybiem. Ond, er gwaethaf ambell i lygedyn o obaith, nid oes amheuaeth fod y pathew yn rhywogaeth brin, ac yn fregus iawn. Mae hi angen help. Gwahanu cynefinoedd, rheolaeth amhriodol, a cholli cynefinoedd, yw'r peryglon mwyaf iddi. Pa bathew fydd am fentro'i fywyd yn ceisio croesi chwe lôn yr M4 - neu unrhyw brif ffordd arall, o ran hynny? Bu adeiladu pontydd i bathewod ar draws Ffordd Osgoi newydd Pentre'r Eglwys yn destun sbort yn y Wasg. Rhaid cofio er hyn fod gwahanu cynefinoedd yn fater difrifol i rywogaeth â chyn lleied o allu i wasgaru ac ymledu.

Yn ogystal â hyn byddant yn gaeafgysgu am fwy o'r flwyddyn nag y byddant yn weithgar. Rhaid iddynt wneud y defnydd gorau posibl o'r haf. Mae hafau gwael, gwlyb, yn her ofnadwy i'r pathew - a rhaid cyfaddef y byddwn yn cael mwy na digon o'r rheiny yn Rhondda Cynon Taf.

Rhywogaeth gyffredin yw'r llygoden bengron goch a llygoden bengron y gwair ill dau. Y ddealltwriaeth yw bod y llygoden bengron goch â mwy o gysylltiadau â choetiroedd, gwrychoedd, a pherthi, ond bod glaswelltiroedd twmpathog yn well gan lygoden benfron y gwair. Bydd safleoedd glaswelltir, boed yn wlyb neu'n sych, fel arfer yn llawn rhediadau llygod pengrwn, tystiolaeth o lygod pengrwn yn bwydo (pentyrrau cymen o goesau glaswellt wedi'u torri, a baw llygod pengrwn). Byddai'n rhesymol i dybio fod poblogaethau llygod pengrwn y gwair yn Rhondda Cynon Taf yn anferthol. Ond pan edrychwn ar hanes llygoden bengron y dŵr, nid oes cofnodion diweddar ohoni o gwbl. Yn ôl rhyw hen gofnodion sy'n dal ar glawr a chadw, bu adroddiad posibl ryw ddeng mlynedd yn ôl am lygoden bengron y dŵr, yn nofio ar draws dŵr agored ar Gaeau Tirffownder. Cafwyd hyd yn fwy diweddar i boblogaeth ohonynt yn byw yng ngogledd-orllewin Caerdydd, ond ni ddaeth poblogaethau i'r golwg yn Rhondda Cynon Taf. Mae lle cryf i amau fod ysglyfaethu gan fincod yn gyfrifol am ddirywiad nifer llygod pengrwn y dŵr. Bellach, mae'n annhebygol iawn fod unrhyw boblogaethau ohonynt ar ôl yn ein hafonydd iseldirol. Hwyrach y byddai'n werth chwilio yn yr ucheldiroedd. Mae'r pyllau dŵr yn y coedwigoedd a'r mawnogydd yno yn ddigon pell o brif boblogaethau'r minc.

Er nad yw'r llygoden ffyrnig yn rhywogaeth frodorol, nid oes osgoi'r creadur. Mae llygod ffyrnig rif y gwllith wedi ymgartrefu ym mhob man, wedi'u haddasu'u hun yn ofnadwy o lwyddiannus i'r bywyd modern, ac wedi cyrraedd y brig yn rhestr y fermin, plâu a phryfed.

Llyg

Tair rhywogaeth o llyg sydd i'w cael yn Rhondda Cynon Taf. Mae toreth o llyg cyffredin yn byw yma. Yn anaml y gwelwn rai byw, er bod eu lleisiau main, llym, yn ddigon hawdd eu clywed. (Ond mae cyrff marw'r creaduriaid byrhoedlog hyn yn ddigon cyffredin.) A yw sefyllfa'r llyg yma yn cyfateb i'r darlun ar lefel Brydeinig? Os ydyw, rhaid bod y llyg leiaf yn gyffredin iawn, ac yn fwy niferus na'r llyg cyffredin ar ein corsydd a rhosydd ucheldirol. Rhyw fywyd lled-ddyfrol sydd gan llyg y dŵr. Fe'u ceir yn gyffredin mewn gwlyptiroedd sy'n llawn pyllau a nentydd. Y farn gyffredinol yw'i fod yn gyffredin mewn mannau penodol yn unig, oherwydd ei anghenion o ran cynefin. Cafwyd hyd i llyg y dŵr ar nifer o safleoedd yn Rhondda Cynon Taf. (Weithiau, cafwyd hyd iddynt mewn cysgodfeydd a llochesi i ymlusgiaid.) Mae'n debyg eu bod hwy, a llygod yr yd, ymhlith elfennau pwysicaf ffawna mamalaidd bach ein safleoedd glwyptir.

Gwiwerod

Nid oes raid mynd dros hanes trist tranc ein gwiwerod coch brodorol unwaith eto. Mae'n hollol sicr fod gwiwerod coch yn ein coetiroedd hanner canrif yn ôl. Digon prin yw hen gofnodion, ac mae'r cofnodion anecdotaidd diweddaraf sydd gennyf yn cyfeirio at rai yng nghoedydd y Rhondda ac Abercynon yn gynnar yn y 1960au, ac yn y coedydd ger Prifysgol Morgannwg, Trefforest, yn y 1980au neu'r 1990au.

Oherwydd dirywiad a thranc y rhywogaeth hon, mae hi'n derbyn gwarchodaeth ac amddiffyniad o dan Atodlenni 5 a 6 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981. Roedd fersiwn wreiddiol *Gweithredu Dros Natur* yn cynnwys cynllun penodol unigol ar gyfer gwiwerod coch. Roedd gennym obaith eithaf realistig yr adeg honno y gallai poblogaeth o wiwerod coch fod wedi goroesi yn y planhigfeydd conwydd ucheldirol. Dyna'r unig gynefin coetir nad yw'n ffafrio'r wiwer lwyd yn awtomatig. Er gwaethaf hynny, ni ddaeth adroddiad am wiwerod coch i law yn y coedwigoedd hyn yn ystod y 12 mlynedd ers cyhoeddi'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol. Gwanhau mae'n gobeithion iddynt gael encilfan yn y mynyddoedd yno.

Serch hynny, fe fu clwstwr rhyfedd o gyfeiriadau posibl at weld gwiwerod coch yn ystod oes y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol. Tua 2005, cysylltodd Dan Forman, Cofnodydd Mamaliaid Morgannwg, â ni ynghylch posibilrwydd fod gwiwerod coch wedi'u gweld yn Llanhari. Roedd dau o'r preswylwyr a thrigolion lleol wedi rhoi i Dan ddisgrifiadau o greaduriaid bach o liw coch cyfoethog a chyda chlustiau cobyynnog. Mae hyn yn dilyn dau gofnod, heb eu cadarnhau, o wiwerod coch yn Llanilltud Faerdref tua 2000, ac adroddiadau tua'r un adeg am weld gwiwerod coch ym Mhontypridd, yn ardal Gelliwion. Dyna pam mae lle i obeithio fod poblogaeth fechan o wiwerod coch, tan yn ddiweddar o leiaf, mewn ardal rhwng Llanhari a Phontypridd. Ar yr un pryd, ni ddaeth adroddiadau na chofnodion pellach i law ers pum mlynedd. Ai gwiwerod coch go iawn oedd y rhain, yntau rai llwyd â rhyw wawl coch ynddynt? Mae'n bosibl na chawn byth wybod.

Ond o gymharu â hyn, mae toreth o wiwerod llwyd ym mhob man. O ystyried adroddiadau mwy diweddar o'r Maerdy fod nifer y gwiwerod llwyd ar gynnydd, gallwn dybio eu bod yn dal i ymledu i dir uwch o hyd. Yn wyneb y fath gystadleuaeth, mae lle i bryderu y gallai ailennill eu plwy fod yn dalcen caled i unrhyw wiwerod coch sy'n weddill.

Draenogiaid

Roedd y draenog hoff yn destun ei Chynllun Gweithredu ei hun yn fersiwn wreiddiol *Gweithredu Dros Natur*. Enillodd y statws hwn yn sgîl hoffter trwch y boblogaeth at y rhywogaeth hon. Am nifer o flynyddoedd fe fyddem ni yn mynd â map draenogiaid i achlysuron a digwyddiadau bioamrywiaeth lleol. Byddem yn annog pobl i ddodi pin yn y map i gofnodi ble yn ddiweddar roeddent wedi gweld draenogiaid. Nid oedd y dull ymchwilio hwn yn arbennig o wyddonol ei naws, ond dangosai'r cofnodion hyn fod draenogiaid i'w cael ym mhob rhan o drefi a maestrefi Rhondda Cynon Taf. Yn ôl *A Review of British Mammals*, dosbarthiad anghyson iawn sydd gan ddraenogiaid yng ngwledydd Prydain. Dylai ein hinsawdd fwyn, wlyb, ni weddu i'r dim i ddraenogiaid. Mae hi'n darparu amgylchiadau perffaith ar gyfer gwllithod a malwod, sy'n ffynhonnell bwyd iddynt. Ymddengys fod ysglyfaethu gan foch daear yn effeithio ar niferoedd draenogiaid hefyd. Bydd dwysedd draenogiaid wastad yn isel lle mae dwysedd moch daear yn uchel. Nid yw moch daear yn gyffredin yn Rhondda Cynon Taf. Efallai fod hyn yn argoelio yn dda ar gyfer draenogiaid Mae'n sicr fod cryn nifer o ddraenogiaid yn cael eu lladd ar y ffyrdd. Os yw hyn yn ddangoseg ddibynadwy o bresenoldeb draenogiaid, gallan fod yn hyderus fod niferoedd rhesymol ohonynt yma o hyd.

Twrch Daear

Rhywogaeth y coetiroedd oedd tyrchod daear yn wreiddiol. Ymddengys eu bod wedi hen ennill eu plwyf a dosbarthiad eang drwy Rondda Cynon Taf, yn enwedig mewn ardaloedd iseldir. Yn ôl *A review of British mammals*, mae dyfnder y pridd yn arbennig o bwysig i dyrchod daear, gan fod angen digon o ddyfnder iddynt gloddio twnelau. Tybed a fedrwn ni rhagdybio y byddai pridd mwy tenau llechweddau ein Cymoedd yn cynnal llai o dyrchod daear. Nid oes gennym wybodaeth i gadarnhau neu wrthddweud y rhagdybiaeth honno.

Carlymoliaid

Y wenci a'r carlwm yw'r mwyaf cyffredin o'r carlymoliaid. Byddai'n ddigon diogel, felly, i dybio fod carlymoliaid yn gyffredin ac â gwasgariad eang. Ond, a dweud y gwir, ychydig iawn o adroddiadau neu gofnodion sy'n dod i law. (Ydych chi'n gwranddo ...?)

O ran y rhywogaethau 'prinnach', daw digon o gofnodion o ffwlbartiaid wedi'u lladd ar y ffyrdd. A dweud y gwir, adroddiadau am ffwlbartiaid yw'r rhai mwyaf niferus am famaliaid.

Anfonwyd nifer o'r rhain i Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Vincent i gael eu gwireddu. Y farn yw taw ffwlbartiaid ydynt bob tro, yn hytrach na ffuretiaid, neu ryw groes rhwng ffwlbart a ffuret. Cawsom ambell i adroddiad am ffwlbartiaid byw o dro i dro. Gan amlaf, daeth y rhain o fuarthau neu randiroedd. Daliwyd ambell i garlymolyn (a'i ryddhau wedyn) mewn trapiau llygod 'dal-yn-fyw'. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu'n gryf fod ffwlbartiaid wedi hen ennill eu plwyf yn Rhondda Cynon Taf. Mae'n bosibl y darganfyddwn eu bod yn eithaf cyffredin. "Diolch am yr wybodaeth," meddai Dan Foreman, Cofnodydd Mamaliaid Morgannwg, wrth gadarnhau cofnod o ffwlbart gan Mark Evans. "Er hynny, mae'n drist i weld un wedi marw ar y ffyrdd. Os deuwch o hyd i ragor o ffwlbartiaid (a gwenciod, carlymod, ayyb), byddaf yn ofnadwy o falch i chi os gysylltwch â mi. Mae prosiect atlas mamaliaid ar waith ar hyn o bryd, ac mae pob cofnod o unrhyw famal, hyd yn oed rywogaethau cyffredin fel y wahadden, y llygoden fawr, y gwningen, neu'r llygoden, o werth i ni. Dwedwch wrth bawb!

Aeth Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Vincent ati yn gynnar yn y ganrif i gydlynu, cydgysylltu, a chyd-drefnu arolwg o felaod Cymru. Bu ymgyrch bosteri gyda chyhoeddusrwydd eang, gan goladu, cydlynu, a chrynhoi'r cofnodion a ddaeth i law. Roedd canfyddiadau interim yr arolwg yn cynnwys dau gofnod hyder uchel yn y rhan o Rondda Cynon Taf ychydig i'r gogledd o'r Hirwaun, sy'n rhan o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Yn fuan ar ôl 2000, dechreuasom dderbyn adroddiadau petrus iawn, ac heb eu cadarnhau rhaid dweud, o bresenoldeb posibl carlymod Daeth y cyntaf gan hebogydd, oedd yn hel cwningod yng Nghoedwig Llanwonno â'i hebog Harris. Ond, yn lle dod â chwningen farw at draed yr hebog, dyna'r aderyn yn gollwng bele byw - a'i baglodd i oddi yno yn ddi-oed! Clywais sôn hefyd am famal yn debyg i garlymolyn yn dianc o goeden. Nid gwiwer neu gath oedd y creadur, ac mae'n bosibl taw bele ydoedd. Tua'r un adeg, roedd naturiaethwr lleol yn gwyllo ar bwys siop ddodrefn a chelfi Arthur Llewellyn Jenkins yn Llantrisant. Gwelodd ef garlymolyn fawr yn rhedeg â champau bras ar draws y cae tua'r coetir. Yn ôl y disgrifiad, roedd yn rhy fawr i fod yn ffwlbart neu'n finc, ac yn rhy fach i fod yn ddyfrgi. Roedd y tri chofnod hyn wedi cyd-daro â'i gilydd, ac ni chlywsom ragor wedyn. Mae digon o gynefin yn Rhondda Cynon Taf y gallai'r belod eu defnyddio, ac felly mae'n ddigon posibl fod y creaduriaid i'w cael yma. Ydych chi wedi gweld un - ddim o reidrwydd yn ddiweddar? Croeso i chi gysylltu â Dr. Johnny Binks, VWT, 3 & \$ Bronsil Courtyard, Eastnor, Ledbury, Herefordshire, HR8 1EP (01531 636441).

Mae dyfrgwn yn derbyn gwarchodaeth ac amddiffyniad yn llawn a llwyr o dan gyfraith y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd. Dyma lwyddiant digamsyniol yn hanes mamaliaid Prydain. 'Adeg cyhoeddi Cynllun Dyfrgwn gwreiddiol 'Gweithredu Dros Natur: roedd y rhywogaeth yn dal wrthi ar ganol ail-gytrefu Rhondda Cynon Taf Bellach, mae dyfrgwn wedi ail-gytrefu dalgylch afonydd cyfan Rhondda Cynon Taf. Oddi ar adeg y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol, cynyddu mae nifer yr adroddiadau o faw dyfrgwn, olion eu traed, a'r creaduriaid byw eu hunain. Mae'n debyg fod y rhywogaeth wedi ymledu drwy ddalgylch Afon Rhondda, ac i fyny ac i lawr dalgylchoedd Cynon, Taf, ac Elái. Ar y llaw arall, fe gynyddodd nifer yr adroddiadau i'r Cyngor am ddyfrgwn yn marw ar y ffyrdd tan tua 2005, ond dechrau dirywio eto yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf. A yw hyn yn dangos fod y niferoedd yn dirywio mewn gwirionedd? Nid oes modd dweud. Mae rhai pethau yn sicr, serch hynny. I ddechrau, mae ansawdd cyffredinol y dŵr wedi gwella yn y rhan fwyaf o'n hafonydd. Darparwyd sarnau a thwnelau dyfrgwn ar gyfer cynlluniau ffyrdd diweddar, yn enwedig Ffordd Liniaru'r Porth a Ffordd Osgoi Pentre'r Eglwys. Crëwyd gwaliau dyfrgwn artiffisial mewn rhai mannau, ac mae nifer uchel yr adroddiadau yn awgrymu fod yma fannau pwysig lle mae dyfrgwn yn bridio. Mae hyn yn cynnwys cael

hyd i leoliad gwaliau, ac adroddiadau o ddyfrgwn aeddfed gyda rhai ifanc. Er hyn i gyd mae ein dealltwriaeth gyffredinol o wir statws y dyfrgi yn Rhondda Cynon Taf yn dal yn eithaf gwael. Gallwn ni ddyfalu'n hyddysg lle gallai mannau bridio fod, ond dim mwy na hynny. Ychydig flynyddoedd yn ôl, fe nododd Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru fod Cymoedd y De yn ardal lle roedd adferiad y dyfrgi ymhell ar ôl yr adferiad yng ngweddill y wlad. Gwaith diddorol fyddai llunio diweddariad o'r sefyllfa yno ar gyfer 2012.

Yn ddiweddar iawn y daeth y minc yn rhan o'n ffawna ni. Rydym wedi trafod yr effeithiau tebygol ar lygoden bengron y dŵr uchod. Mae'n syndod cyn lleied o gofnodion i fincod sydd i'w gweld yn 'Cylchlythyr y Cofnodwyr'. Efallai fod nifer y mincod yn lleihau, o bosibl o ganlyniad i gynnydd yn nifer y dyfrgwn.

Moch Daear

Dyma rywogaeth nid anenwog, sy'n derbyn gwarchodaeth ac amddiffyniad llawn a llwyr o dan Ddeddf Gwarchod Moch Daear 1992. Ymddengys y mochyn daear yn rhywogaeth eithaf prin a dirgel ei ffyrdd yn Rhondda Cynon Taf. Mae'r tystiolaethau yn ategu hyn: yn anaml y bydd sôn am foch daear mewn gwaith ecolegol ar gyfer caniatâd cynllunio; nid yw ein cofnodwyr lleol yn crybwyll llawer ohonynt, ac nid oes llawer o adroddiadau amdanynt yn marw ar y ffyrdd. Mae'n bosibl fod erlid a tharfu gan bobl yn cyfrannu at brinder y rhywogaeth. Ar yr un pryd, nid yw priddoedd tenau'r Cymoedd yn gadael i foch daear gloddio'u gwaliau yn rhwydd. Yn y diwedd, efallai fod Rhondda Cynon Taf yn gynefin gwael i foch daear yn gyffredinol.

Cadno

Rhywogaeth gyfarwydd iawn yw'r cadno, wrth gwrs. Mae'r cadno yn cyrraedd pob twll a chornel o'r ardal, ac nid oes angen afradu geiriau arno.

Ysgyfarnogod a Chwningod

Nid rhywogaethau brodorol oedd y rhain yn wreiddiol, ond maent wedi ennill eu plwyf ers canrifoedd. Yn Rhondda Cynon Taf, er hyn, mae'r ysgyfarnog yn rhywogaeth eithaf prin, a daw'r rhan fwyaf o'r cofnodion o dde-orllewin y Fwrdeistref - yn fras, o Donyrefail i lawr i Lanharan a Llanhari. Yn anaml iawn y gwelir yr ysgyfarnog y tu allan i'r ardal honno. Efallai fod ein gwanwynau glawog, ac effaith y rheiny ar y lefrod, yn cadw nifer yr ysgyfarnogod i lawr. Mae'n bosibl nad yw ein hinsawdd yn rhy addas i'r ysgyfarnog.

Llanw a thrai yw hanes nifer y cwningod, wrth i glefyd y mycsamatoxis ddod a mynd. Serch hynny, bydd wastad cwningod i'w cael ym mhob man, ac yn niferus iawn mewn lleoedd penodol.

Ceirw

Mae Rhondda Cynon Taf ymhlith yr ychydig iawn o leoedd yng ngwledydd Prydain i fod bron yn gyfan gwbl heb geirw. Nid yw'r iwrch brodorol yn bresennol o gwbl. Er bod adroddiadau am geirw ym mhlanhigfeydd yr ucheldir o dro i dro, mae'n debyg taw bychod danas wedi crwydro o Barc Margam yw'r rhain, ac maent yn rhyfeddol o brin. Mae poblogaethau ceirw ar gynnydd, ac ymledu, ym mhob rhan o Brydain. Ymddengys yn anochel y bydd un rhywogaeth o leiaf yn cytrefu Rhondda Cynon Taf yn y dyfodol agos. Mae'r posibilïadau yn cynnwys iyrchod neu deirw mwnt jac yn dod i mewn o'r dwyrain, bychod danas o'r gorllewin, neu geirw coch o Fannau Frycheiniog.

Ystlumod

Gwyddom yn bendant fod 11 o rywogaethau o ystlumod i'w cael yn Rhondda Cynon Taf. Mae'n bosibl fod cymaint â 14 neu 15 o rywogaethau yma. Mae'r amrediad niferoedd hwn

yn adlewyrchu anawsterau cynnal arolwg ac asesiad o ystumod. Dyma ymgais i grynhoi ein dealltwriaeth gyfredol o statws y rhywogaethau.

Yr ystumod lleiaf yw'r rhywogaeth a sylwir mynychaf. Bydd dwy rywogaeth o ystumod lleiaf yno yn bendant, sef yr ystumod lleiaf cyffredin, a'r ystumod lleiaf soprano. Mae'n ddigon posibl fod yr ystumod bach Narthusius (a ddarganfuwyd yn ddiweddar) yma hefyd. Mae'r ystumod lleiaf, yn ogystal â'r ystumod lleiaf soprano, yn gyffredin iawn ac wedi hen ennill eu plwyf yn Rhondda Cynon Taf. O adolygu adroddiadau'r arolwg ystumod, fe welwn fod yr ystumod lleiaf soprano yn derbyn mwy o gofnodion na'i berthynas agos yr ystumod lleiaf. Gall yr ystumod hun ymaddasu i lu o fathau o dai ac adeiladau. Hwyl yw'r rhywogaeth a gysylltir ag ardaloedd a mannau trefol. Hwyl yw'r rhai sy'n lleiaf sensitif i oleuadau stryd a gardd. Mewn geiriau eraill, mae goleuo artiffisial yn peri llai o ofid iddynt.

Ymddengys taw cofnodion o ystumod hirglust yw'r rhai mwyaf niferus mewn arolygon ceisiadau cynllunio, ar ôl y ddwy rywogaeth o ystumod lleiaf. Y patrwm arferol yw iddynt chwilio am glwydfannau mewn ysguboriau, neu adeiladau lle mae gwagleoedd to mawr. Yn aml iawn, bydd arolygon o weithgareddau yn eu cofnodi yn bwydo mewn gerddi coediog neu mewn buarthau. Cafwyd hyd i ystumod hirglust yn gaeafgysgu mewn twneli rheilffyrdd yn Rhondda Cynon Taf.

Ystumod y dŵr yw'r rhywogaeth glasurol ar gyfer afonydd a llynnoedd. Nid ydynt yn ymddangos yn aml yn yr arolygon adeiladau sy'n ofynnol mewn ceisiadau cynllunio. Ar y llaw arall, cânt eu hadnabod a'u nodi mewn arolygon gweithgareddau ar ddyfrffyrdd cyfagos. Maent i'w cael yn gyffredin mewn mannau penodol yn Rhondda Cynon Taf. Mae llynnoedd Parc Gwledig Cwm Dâr yn lle da i wylio ystumod y dŵr yn hela. Byddant yn hedfan yn isel dros y dŵr ar lwybrau siâp rhif wyth. Bydd arolygon cais cynllunio ar gyfer ceisiadau adeiladu yn cofnodi ystumod Natterer yn eithaf aml. Ymddengys eu bod yn gymharol gyffredin, gyda dosbarthiad eang yn Rhondda Cynon Taf. Gwaith eithaf anodd yw gwahaniaethu rhwng yr ystumod barfog ac ystumod Brandt. O ganlyniad, bydd adroddiadau ystumod yn eu trin yn aml fel dwy ochr yr un geiniog. Mae'n bosibl fod y sawl a luniodd yr adroddiad yn methu gwahaniaethu rhyngddynt. I ychwanegu at y dryswch, daeth ystumod hynod debyg arall, ystumod Alcathe, i ymgartrefu yma. Yn ôl y farn gonfensiynol, yr ystumod barfog yw'r rhywogaeth fwyaf cyffredin. Yn Rhondda Cynon Taf, ar y llaw arall, nid oes gennym syniad pendant o'u statws cymharol. Gwyddom fod yr ystumod barfog, a/neu ystumod Brandt, yn cael eu cofnodi yn weddol aml, ond fod ystumod Natterer yn cael ei gofnodi yn fwy aml.

Yr ystumod mawr yw'r rhywogaeth fwyaf ysblennydd a thrawiadol o ystumod yn Rhondda Cynon Taf. Ystumod chwim a beiddgar yw'r ystumod mawr, sy'n dod allan fin nos i godi a disgyn, troi a throsi a hela ac erlid drwy'r awyr dywyll ar drywydd ei ysglyfaeth. Byddant yn clwydo mewn coed, ac yn ymddangos yn gwbl ddirybudd ar ôl machlud haul i hedfan ar frys yn ôl ac ymlaen drwy'u hoff fannau hela. Mae dyfeisiau i'w cael ar gyfer clywed eu galwadau - byddaf wrth fy modd yn gwrando. Mewn cae i geffylau yn agos i'm cartref, gallwyf wylio hyd at chwe ystumod mawr yn ymgasglu gyda'r nos ym Mai a Mehefin. Bydd chwilog y bŵm allan, neu'r chwimfyfnod rhithiol yn dawnsio ar y blodau menynd. Mae'r rhuthr bwydo yn werth ei weld, ac yn dangos mor bwysig yw hen borfeydd fel cynefin fforio i ystumod. Ymddengys fod dosbarthiad eang gan ystumod mawr. Maent yn gymharol gyffredin yn Rhondda Cynon Taf, a cânt eu crybwyll yn aml mewn arolygon gweithgaredd ar gyfer ceisiadau cynllunio. Mae'u clwydfannau hwyl yn fwy anodd i'w canfod. Hyd yn hyn, ni fu sôn am un mewn ceisiadau cynllunio ar gyfer adeiladau. Rhyw fath o gefnder llai o ran maint i'r ystumod mawr yw'r ystumod adain-lydan. Cafodd ei gofnodi

yn ddiweddar am y tro cyntaf yn Rhondda Cynon Taf, ond erys ei union statws yn aneglur.

O ran y rhywogaethau prinnach, mae'r ystlum du yn clwydo mewn coed. Cofnodwyd un ryw ddeng mlynedd yn ôl fel rhan o waith cais cynllunio. Mewn lôn goediog yn ardal Llanharan roedd yr ystlum. Roedd yr ystlum du hwn yn dilyn arfer ei rywogaeth, sef hedfan yn ôl ac ymlaen yn hel ysglyfaeth i'w bwyta. Mae'n bosibl fod clwydfan ystlumod du mewn cyfres o dyllau a phantiau mewn coed, rywle yn Llanharan. Mae ardaloedd tebyg eraill yn Rhondda Cynon Taf lle mae coed aeddfed yn tyfu mewn coetir neu barcdir agored, wrth gwrs. Ond, am y tro o leiaf, ni wyddom ddim am statws y rhywogaeth hon yn Rhondda Cynon Taf.

Un o'n rhywogaethau mwyaf nodedig ac enwog, mae'n debyg, yw'r ystlum pedol lleiaf. Dim ond yn ystod y ddeng mlynedd ddiwethaf y daeth yr ystlum hwn i'r golwg yn Rhondda Cynon Taf. Serch hynny, fe wyddom ni am un glwyd mamolaeth fawr a phwysig o leiaf yma, tua de-orllewin y Fwrdeistref Sirol. Mae yno 150 neu fwy o ystlumod, sy'n defnyddio hen adeilad allanol wedi'i gysylltu â hen dŷ. Mae'n bosibl hefyd fod clwydfan gaeafgysgu yn y gwagle mewn hen waith mwyn. Yn ogystal â hyn rydym wedi derbyn cyfres bellach o adroddiadau am ystlumod o ardaloedd Llanharan, Pont-y-clun, Aberdâr, a Phontypridd. Mae'r rhain yn cynnwys cofnodion o ystlumod pedol lleiaf drwy ardaloedd trefol o Bontypridd lle mae'r strydoedd yn cael eu goleuo. Mae hyn yn gwbl groes i'r ddealltwriaeth gyffredin o arferion ystlumod pedol lleiaf! Mae cofnod o faw ystlum pedol lleiaf mewn twnnel segur nas defnyddir ger Aberdâr. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu fod tair clwydfan ystlum pedol lleiaf o leiaf yn Rhondda Cynon Taf. Rydym eisoes yn monitro un yn y de-orllewin, ond dal heb eu darganfod mae rhai yn ardaloedd Aberdâr a Phontypridd. Mae'n debyg fod clwydfan gaeafgysgu ystlumod yn y gwagle mewn hen waith mwyn. Byddai hon yn agored iawn i darfu ac nid yw'n cael ei monitro. Nid yw'r un o safleoedd ystlum pedol lleiaf Rhondda Cynon Taf wedi derbyn gwarchodaeth ac amddiffyniad statudol drwy ddynodiad fel Ardal Cadwraeth Arbennig neu fel Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Yn ôl gwaith mewn cysylltiad â chais cynllunio yn ddiweddar, cofnodwyd ystlumod pedol mwyaf ar eu ffordd drwy ryw fan ar y llechwedd agored ger Llanharan. Yn ystod yr hydref y cofnodwyd hyn. Mae'n bosibl ei fod yn rhan o fudiant yr ystlumod o'u cynefin haf i fannau gaeafgysgu.

A dyma ddiwedd i'n taith drwy'n gwybodaeth gyfredol o famaliaid Rhondda Cynon Taf. Gwaith ar y cyd oedd hwn, heb os nac oni bai. Byddem ni wrth ein bodd yn cael derbyn eich syniadau, sylwadau, cywiriadau, neu welliannau. Bydd y Cylchlythyr nesaf yn cynnwys y coladiad, cydlyniad, a chrynhoad arferol a rheolaidd o gofnodion ac adroddiadau newydd. Croeso brwd i'ch cyfraniadau.

Richard Wistow, Ecolegydd
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Llwyn Castan
Heol y Llyfrgell
Pontypridd, CF37 2YA
Richard.j.wistow@rctcbc.gov.uk